

CAFFAEL TIR, PRIFFYRDD, CYMRU

201- Rhif

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI
(YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN
A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A
CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O
ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O
DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD
CAERDYDD I LANCONWY (YR A470)
(FFYRDD CYSYLLTU) (BRYN-MAWR I
DREDEGAR)) 201-**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

Gwnaed 201-

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir “yr awdurdod caffael” yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) fel y'u hestynnwyd ac fel y'u hategwyd gan adran 250 o'r Ddeddf honno ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(2) a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall(3) wedi ei awdurdodi drwy hyn i brynu yn orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2, er mwyn—

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd o Fryn-mawr i Dredegar, y cyfan yng nghymunedau Sirhywi, Rasa, Cendl a Gogledd Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y cymunedau a enwyd yn y Fwrdeistref Sirol a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y cymunedau a enwyd yn y Fwrdeistref Sirol a enwyd;
- (ch) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;

- (d) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag adeiladu a gwella'r priffyrdd hynny ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; ac
- (dd) lliniaru effeithiau andwyol priffyrdd neu briffyrdd arfaethedig ar eu hamgylchoedd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, yn ogystal â'r planiau sy'n cyd-fynd â'r ddau orchymyn, wedi eu hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato ym mharagraff 6.

2. Y tir yr awdurdodwyd ei brynu yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen 1 i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map, a disgrifir yr hawliau newydd dros dir, sydd i'w prynu yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn, yn yr Atodlen 1, a dangosir y tir hwnnw â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli'r cyfeiriadau yn y Rhannau a enwyd o'r Atodlen a enwyd at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w hadeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith sydd i'w adeiladu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw, ar bob ochr iddo, ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, pa un bynnag yw'r mwyaf.

5. (1) (a) Yn y paragraff hwn, ystyr "tir y gorchymyn" yw'r tir a rifwyd 4\3j, 4\3l, 4\3m, 4\3z, 4\3ae, 4\8a, 4\8b, 4\9, 4\9i, 5\1a, 5\1b, 5\1c, 5\1d, 5\2c, 5\2d, 5\2f, 5\2k, 5\2l, 5\2m, 5\2p, 5\2r, 5\2s, 5\2t, 5\2v, 5\2w, 5\2x, 5\2y, 5\2af, 5\4a, 5\4b, 5\4c, 5\4d, 5\4e, 5\4j, 5\4l, 6\1a, 6\1b, 6\2, 6\2b, 6\2c, 6\2e, 6\3a, 6\3i, 6\4a yn Atodlen 1 ac ystyr "y tir cyfnewid" yw'r tir a ddisgrifir yn Atodlen 2 i hyn.

(b) Ar gyfer plot o'r tir cyfnewid, dangosir y blot cyfatebol o dir y gorchymyn at ddibenion y paragraff hwn yng ngholofn olaf Tabl 2 yn Atodlen 2.

(2) Mewn perthynas â phob plot o dir y gorchymyn a'r plot cyfatebol o'r tir cyfnewid, o'r diweddaraf o'r

dyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwn ymlaen, bydd y plot cyfatebol o'r tir cyfnewid wedi ei freinio yn y personau yr oedd y plot hwnnw o dir y gorchymyn wedi ei freinio ynddynt yn union cyn ei freinio yn yr awdurdod caffael, yn ddarostyngedig i'r hawliau, yr ymddiriedolaethau a'r nodweddion cyffelyb a oedd ynghlwm wrth y plot hwnnw o dir y gorchymyn; ac ar hynny, bydd y plot hwnnw o dir y gorchymyn yn rhydd rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a nodwedd yr oedd yn ddarostyngedig iddynt cyn hynny.

(3) Y dyddiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwn yw'r dyddiad —

- (i) y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol;
- (ii) y breinir y plot o dir y gorchymyn yn yr awdurdod caffael;
- (iii) y breinir y plot cyfatebol o'r tir cyfnewid yn yr awdurdod caffael.

6. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465);

ystyr “y gefnffordd newydd” (“the new trunk road”) yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” - (“the Trunk Road Order”) yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 201-;

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (“the Side Roads Order”) yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Bryn-mawr i Dredegar) (Ffyrdd Ymyl) 201-; ac

ystyr “y map” (“the map”) yw'r map sydd wedi'i farcio “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac

Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Bryn-mawr I Dredegar)) 201-”, wedi ei lofnodi gan swyddog yr awdurdod caffael a'i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael, ac wedi ei adneuo yn Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

7. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Bryn-mawr i Dredegar)) 201-.

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGION CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 201-

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O. S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI
(YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN
A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A
CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O
ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O
DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD
CAERDYDD I LANCONWY (YR A470)
(FFYRDD CYSYLLTU) (BRYN-MAWR I
DREDEGAR)) 201-**

**PRYNU TIR A HAWLIAU YN ORFODOL
RHWNG BRYN-MAWR A THREDEGAR YM
MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi paratoi ar ffurf drafft 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) A Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Bryn-mawr i Dredegar) 201-', o dan adrannau 239, 240, 246, 250, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae Gweinidogion Cymru ar fin gwneud y Gorchymyn hwn, ac os gwneir ef, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn—

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd o Bryn-mawr i Dredegar, y cyfan yng nghymunedau Sirhywi, Rasa, Cendl a Gogledd Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 201-;

- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y Cymunedau a enwyd yn y Fwrdeistref Sirol a enwyd yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Castell-Nedd i'r Fenni (yr A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Bryn-mawr i Dredegar) (Ffyrdd Ymyl) 201-;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y cymunedau a enwyd yn y Fwrdeistref Sirol a enwyd;
- (ch) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (d) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag adeiladu a gwella'r priffyrdd hynny ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; ac
- (dd) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a gaiff bodolaeth rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu'u gwella, neu'r defnydd o'r priffyrdd hynny ar eu hamgylchoedd.

2. Mae copi o'r Gorchymyn drafft ac o'r map sy'n cyd-fynd ag ef wedi'u hadneuo a gellir eu gweld ar bob adeg resymol rhwng 22 Medi 2011 a 27 Hydref 2011 yn y manau canlynol:

- Y Gangen Orchymynion , Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,
Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig,
Glyn Ebwy NP23 6XB
- Cyngor Tref Tredegar
Tŷ Bedwellte, Parc Bedwellte, Tredegar NP22
3XN
- Canolfan Cymunedol Bryn-mawr,
Stryd y Berllan, Bryn-mawr NP23 4ET
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau
Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian,
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft mewn ysgrifen a'i gyfeirio at y Gangen

Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 27 Hydref 2011, a dylai nodi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod BZ 910182C-312-qA901627, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Nodwch os gwelwch yn dda: Bydd eich gohebiaeth yn cael ei hystyried gan Dîm y Prosiect a hwyrach y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, caniateir inni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys yr wybodaeth y byddwch chi wedi ei rhoi i ni, ynghyd â'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ac eithrio pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion y byddwch wedi tynnu ein sylw atynt. Pan fo cynllun cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus, rhoddir copi o'r holl ohebiaeth i Arolygydd yr Ymchwiliad a chedwir yr ohebiaeth wedyn yn Llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus, lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r hysbysiad cyhoeddus yn www.cymru.gov.uk (dewiser 'Llywodraeth Cymru, Deddfwriaeth, Is-ddeddfwriaeth, Deddfwriaeth Ddrafft, Offerynnau Anstatudol Drafft, Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR AC O'R HAWLIAU NEWYDD

SYLWER

- a. dynodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau sydd gyferbyn â'r eitem honno isod.

YNG NGHYMUNED SIRHYWI YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Rhan o Gefnffordd yr A465 yn Nant-y-bwch, cylchfan, tanlwybr a nodweddion priffordd cysylltiedig eraill a rhannau o'r ffyrdd dosbarthiadol a diddosbarth a elwir Llwyn Helyg gan gynnwys Glen View, yr A4048, Station Road, Pant-y-dŵr a'i fynedfa gefn, [is-orsaf drydan], Highfield Close, tir pori garw, rhan o'r llwybrau troed cyhoeddus 339/87/1 a 339/93/1 a llwybrau troed anawdurdodedig, ar hyd llinell Cefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gogledd a'r de o'r Gefnffordd honno; eiddo a elwir Rhif 2 Pant-y-dŵr a lled llawn y ffordd ddiddosbarth o'i flaen; lled llawn gwely Afon Sirhywi, coredau a gweithfeydd mwynau

tanddaearol segur. (Plotiau 1/1, 1/1a, 1/1b, 1/1c, 1/1d ac 1/1e).

Glaswelltir, rhan o'r llwybr cyhoeddus 339/87/1, rhan o led llawn a hanner lled y briffordd gyhoeddus a elwir Station Road, ymyl a throetffordd, trac, glan afon a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465, i'r gogledd o St Luke's Road ac i'r gorllewin o Afon Sirhywi; rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46, i'r de o fynwent ddinesig Dukestown ac i'r gogledd o'r A465; rhan o fynwent ddinesig Dukestown, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o'r eiddo a elwir Coed Horgan Farm; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, gwely a glan afon, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 ac oddi tani ac i'r gorllewin o Afon Sirhywi, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal penwal, adeiladu a chynnal Pont Afon Sirhywi a gweithiau draenio; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, rhan o fynwent ddinesig Dukestown, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal ac angorion craig. (Plotiau 1/2, 1/2a, 1/2b, 1/2c, 1/2d, 1/2e, 1/2f, 1/2g, 1/2h, 1/2i, 1/2j, 1/2k, 1/2l, 1/2m, 1/2n, 1/2p ac 1/2q).

Glaswelltir, draeniad tir, cwrs dŵr dienw, rhan o'r llwybr troed 339/93/1 tir a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gorllewin o Afon Sirhywi; glaswelltir, i'r gogledd o 5 a 6 Pant-y-dŵr; glaswelltir goleddfol a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46; creigle goleddfol a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r dwyrain o Afon Sirhywi ac i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 1/3, 1/3a, 1/3b, 1/3c, 1/3d, 1/3e, 1/3f, 1/3g, 1/3h, 1/3i, 1/3j ac 1/3k).

Tai a gerddi'r eiddo a elwir 1 a 3 Pant-y-dŵr a lledau llawn y ffordd ddiddosbarth, ymyl a throetffordd sydd o flaen yr eiddo, a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur; lledau llawn y briffordd gyhoeddus, ymyl a throetffordd sydd o flaen yr eiddo a elwir 7 ac 8 Pant-y-dŵr; lled llawn ffordd gyhoeddus, ymyl, troetffordd a rhan o'r ardd o flaen yr eiddo a elwir 6 Pant-y-dŵr a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur yr eiddo hwnnw. (Plotiau 1/4, 1/4a, 1/4b, 1/4c, 1/4d, 1/4e ac 1/4f).

Tŷ a gardd yr eiddo a elwir rhif 4 Pant-y-dŵr a lled llawn ffordd ddiddosbarth ymyl a throetffordd o flaen yr eiddo, gan gynnwys gweithfeydd mwynau tanddaearol segur. (Plot 1/5).

Lled llawn ffordd ddiddosbarth, ymyl, throetffordd a rhan o'r ardd o flaen yr eiddo a elwir 5 Pnt-y-dŵr, a'i weithfeydd mwynau tanddaearol segur. (Plotiau 1/6, 1/6a ac 1/6b).

Hanner lled y briffordd gyhoeddus, ymyl a throetffordd, o flaen yr eiddo a elwir rhif 16 Station Road, Nant-y-bwch, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plot 1/7).

Glaswelltir, glan afon a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac oddi tani; glaswelltir i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gorllewin o Afon Sirhywi; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar wely a glannau a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur Afon Sirhywi at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal y bont i gludo'r darn lletach newydd o Gefnffordd bresennol yr A465 dros yr afon a thrin gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, gan gynnwys drilio a growtio. (Plotiau 1/8, 1/8a, 1/8b ac 1/8c)

Hanner lled y briffordd gyhoeddus, ymyl a throetffordd o flaen yr eiddo a elwir 15 Station Road, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plot 1/9).

Rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46, ffrydiau, draeniad tir, glaswelltir a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r de o fynwent ddinesig Dukestown ac i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 1/10, 1/10a, 1/10b ac 1/10c).

Glaswelltir goleddfol serth a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r dwyrain o Afon Sirhywi; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar wely a glannau afon a hanner lled Afon Sirhywi gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465, i ddarparu mynediad at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pont i gludo'r darn lletach newydd o Gefnffordd bresennol yr A465 dros yr afon a thrin gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, gan gynnwys drilio a growtio a phob gwaith cysylltiedig. (Plotiau 1/11 ac 1/11a).

Ymyl priffordd, blaen-gwrt y garej Ambay Service Station a hanner lled ffordd fynediad ddienw, i'r de o gylchfan Nant-y-bwch. (Plot 1/12).

Glaswelltir, glan afon a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r dwyrain a'r gorllewin o Afon Sirhywi; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar wely a glannau Afon Sirhywi a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pont i gludo'r

darn lletach newydd o Gefnffordd bresennol yr A465 dros yr afon a thrin gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, gan gynnwys drilio a growtio. (Plotiau 1/13, 1/13a, 1/13b ac 1/13c).

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A465, ymyl a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, A465 i'r gogledd o Uned 1A Parc Busnes y Crown ac i'r de o Dyntyla a Hirgan Farm; glaswelltir, i'r de o'r eiddo a elwir Coed Hirgan Farm, i'e de-orllewin o'r eiddo a elwir Upper Hirgan Fach Farm ac yn gyfagos i Fynwent Dukestown; glaswelltir, i'r de o'r eiddo a elwir Coed Hirgan Farm ac yn gyfagos i'r ffordd fynediad sy'n arwain at Fynwent Dukestown; glaswelltir, i'r de-ddwyrain o'r eiddo a elwir Coed Hirgan Farm ac i'r de o'r eiddo a elwir Upper Hirgan Fach Farm; ymyl priffordd a llwyndir, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 yn Dukestown, yn gyfagos at gefn Uned 1A Parc Busnes y Crown. (Plotiau 2/1, 2/1a, 2/1b, 2/1c, 2/1d, 2/1e, 2/1f, 2/1g, 2/1h, 2/1s a 2/1y).

Ffordd fynediad sy'n arwain at Fynwent Dukestown a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o'r eiddo a elwir Coed Hirgan Farm; rhan o'r briffordd dddiddosbarth a elwir Crown Avenue a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, gan gynnwys rhan o'r bont a elwir Pont Crown Avenue, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465; glaswelltir a draeniad tir rhwng y llwybr troed 339/105/2 a ffin ddeheuol Cefnffordd bresennol yr A465 yn gyfagos at Barc Busnes y Crown, Dukestown; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar y ffordd fynediad sy'n arwain i Fynwent Dukestown, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o'r eiddo a elwir Coed Hirgan Farm, at bob diben sy'n ymwneud ag adeiladu a chynnal wal gynnal a mewnosod a chynnal angorion craig; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir rhwng y llwybr troed 339/105/2 a ffin ddeheuol Cefnffordd bresennol yr A465 yn gyfagos at Barc Busnes y Crown, Dukestown, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio. (Plotiau 2/2, 2/2a, 2/2b, 2/2c, 2/2d, 2/2w, 2/2y a 2/2z).

Trac mynediad sy'n arwain at Upper Hirgan Fach Farm a Coed Hirgan Farm, i'r gogledd o Crown Avenue ac i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar ymyl cyfagos i Upper Hirgan Fach Farm, Crown Avenue, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal a mewnosod a chynnal angorion craig. (Plotiau 2/3, 2/3a, 2/3b, 2/3d a 2/3e).

Rhan o ardd yr eiddo a elwir Upper Hirgan Fach Farm a'r ffordd fynediad at yr eiddo hwnnw, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar ran o ardd Upper Hirgan Fach Farm at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal a mewnosod a chynnal angorion craig. (Plotiau 2/4, 2/4a, 2/4b, 2/4c a 2/4d).

Tir pori a rhan o'r llwybr troed 339/96/1, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gorllewin o Crown Avenue; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar dir pori a rhan o'r llwybr troed 339/96/1, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gorllewin o Crown Avenue, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pont newydd. (Plotiau 2/5, 2/5a a 2/5b).

Tir pori a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, gan gynnwys cwrs dŵr dienw a hanner lled cwrs dŵr yn yr eiddo a elwir Tyntyla, Hirganfach Farm ac i'r dwyrain a'r de-ddwyrain o'r eiddo hwnnw, ac i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar dir pori, yn yr eiddo a elwir Tyntyla, Hirganfach Farm ac i'r dwyrain ohono, ac i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal a mewnosod a chynnal angorion craig. (Plotiau 2/6, 2/6a, 2/6b, 2/6c, 2/6d a 2/6e).

Llwyndir y tu ôl i Uned 1A Parc Busnes y Crown, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 2/7, 2/7a, 2/7b, 2/7c, 2/7d a 2/7e).

Tir pori, a hanner lled cwrs dŵr yn Hirgan Farm ger ei ffin â Thyntyla, Hirganfach Farm a chwrs dŵr dienw, glaswelltir garw a thrac yn Hirgan Farm, y cyfan i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 2/8b, 2/8c, 2/8d, 2/8i, 2/8j a 2/8k).

YNG NGHYMUNEDAU SIRHYWI A RASA YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A465 ac ymyl, i'r de o Hirgan Farm ac yn ymestyn hyd at Gylchfan Rasa; tir pori ac ysgubor wair, rhan o Hirgan Farm; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir yn Hirgan Farm, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 2/1u, 2/1x, 2/8 a 2/8a).

YNG NGHYMUNED RASA YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Tir pori, gweithdy, buarth a chyrsgiau dŵr ar fferm The Wells, i'r gogledd o Gefnffordd yr A465, i'r de o'r Llwybr Ceffylau 332/59/1 ac ar ran ohono; tir pori a mast telathrebu, sef rhan o fferm The Wells ac i'r de o

Uned 26 Ystad Ddiwydiannol Rasa; tir pori, i'r gogledd o'r fangre swyddfeydd wag a elwir Access465 ac i'r de o Uned 27, Ystad Ddiwydiannol Rasa; rhan o'r Gilffordd Gyfyngedig 332/65/1; rhan o Gefnffordd bresennol yr A465 ac ymylon, i'r de ac i'r de-ddwyrain o Hirgan Farm. (Plotiau 2/1i, 2/1j, 2/1k, 2/1l, 2/1m, 2/1n, 2/1p, 2/1q, 2/1r, 2/1t, 2/1v, 2/1w, 2/1z, 2/1aa, 2/1ab, 2/1ac, 2/1ad a 2/1ae).

Rhan o'r ffordd ddeuol ddiddosbarth, ymyl, troetffordd a grid gwartheg i'r gogledd o Gylchfan Rasa, rhan o Bryn Serth Road, rhan o Alan Davies Way, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol cylchfan; ymyl priffordd a glaswlltir i'r dwyrain o Hirgan Farm, yng Nghylchfan Rasa; rhan o laswelltir goleddfol serth i'r de o Unedau 26 a 27 Ystad Ddiwydiannol Rasa gan gynnwys rhan o Drovers' Way (Animal Walk) a thir i'r gogledd ohoni; trac mynediad, i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo elwir Coates Row a glaswelltir garw i'r gorllewin o'r fangre swyddfeydd wag a elwir Access465 a rhan o'r Gilffordd Gyfyngedig 332/65/1. (Plotiau 2/2e, 2/2f, 2/2g, 2/2h, 2/2i, 2/2j, 2/2k, 2/2l, 2/2m, 2/2n, 2/2p, 2/2q, 2/2r, 2/2s, 2/2t, 2/2u, 2/2v a 2/2x).

Rhan o'r llwybr troed 332/66/1 a thir pori yn Hirgan Farm i'r gorllewin, i'r gogledd-orllewin ac i'r gogledd o Gylchfan Rasa ar Gefnffordd bresennol yr A465. (Plotiau 2/8e, 2/8f, 2/8g a 2/8h).

Glaswelltir i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o'r ffordd ddeuol sy'n arwain at Alan Davies Way yn Beaufort Wells; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, ymyl a'r cwrs dŵr Nantmelyn, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gogledd-ddwyrain o Gylchfan Rasa, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio. (Plotiau 2/9, 2/9a a 2/9b).

Glaswelltir i'r de o Uned 29 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd-ddwyrain o Drovers' Way (Animal Walk). (Plot 2/10).

Rhan o gerbyttffordd ddeuol ddiddosbarth, ymyl a throetffordd Alan Davies Way yn Ystad Ddiwydiannol Rasa; cwrs dŵr dienw a'r glaswelltir o'i amgylch, rhwng Unedau 26 a 27 Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plotiau 2/11 a 2/11a).

Glaswelltir goleddfol serth i'r de o Uned 27 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o'r fangre swyddfeydd wag a elwir Access465 ac i'r gogledd o'r Drovers' Way (Animal Walk). (Plotiau 2/12, 2/12a, 2/12b a 2/12c).

Glaswelltir goleddfol serth a thir sy'n cynnwys rhan o faes parcio Uned 27 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r

gorllewin o Alan Davies Way. (Plotiau 2/13, 2/13a, 2/13b, 2/13c a 2/13d).

Glaswelltir ar y fferm a elwir New House, Beaufort Wells, i'r gorllewin o Alan Davies Way i'r gorllewin o'r fangre swyddfydd wag a elwir Access465. (Plotiau 2/14 a 2/14a).

Tir yn Uned 21 Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plotiau 2/15 a 2/15a).

Tir yn Unit 1A, Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plotiau 2/16 a 2/16a).

Rhan o'r ffordd fynediad i gerbydau, a glaswelltir yn y fangre swyddfydd wag a elwir Access465 oddi ar Alan Davies Way. (Plotiau 2/17 a 2/17a).

Tir yn Uned 29 Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plot 2/18).

Tir agored i'r de o'r Unedau 22, 22A a 28 ac yn rhannol gyfagos i Unit 29 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r dwyrain ohoni. (Plotiau 3/1 a 3/1a).

Tir yn Uned 22A Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plot 3/2).

Tir garw, cwrs dŵr, coetir, traciau dienw, draeniad tir a rheolydd nwy i'r de o Unedau 28 a 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd-orllewin o Stonebridge Road, Rasa; coetir, i'r gogledd o Stonebridge Road, Rasa ac i'r de-ddwyrain o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa; rhan o'r llwybrau a glaswelltir i'r dwyrain o Gwm Nantmelyn ac i'r gogledd o Stonebridge Road, Rasa; coetir i'r gogledd o Stonebridge Road ac i'r gorllewin o Gwm Nantmelyn; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar goetir, trac dienw, llwybr troed dienw a draeniad tir, i'r de-ddwyrain o Uned 28 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd-orllewin o Stonebridge Road, Rasa, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pwll gwanhau a draeniau cysylltiedig; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, i'r gogledd o Stonebridge Road, Rasa, gan gynnwys traciau dienw, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio. (Plotiau 3/3, 3/3a, 3/3b, 3/3c, 3/3d, 3/3e, 3/3f, 3/3g, 3/3h, 3/3i, 3/3j a 3/3k).

Tir garw, llwybr troed anawdurdodedig, coetir a chwrs dŵr, i'r de o Ystad Ddiwydiannol Rasa a rhan o ffordd fynediad fewnol yr Ystad yn gyfagos i Uned 28; coetir, i'r de o Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Stonebridge Road, Pen-y-bryn, Heol Llwyd, Heol Elan, Pen-y-crug a Maple Way; glaswelltir i'r de o Ffatri flaenorol y Tech Board; coetir a rhan o gwrs dŵr, i'r gogledd o Stonebridge Road ac i'r de o Uned

36 Ystad Ddiwydiannol Rasa; glaswelltir, llwyndir a chwrs dŵr, i'r de o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Stonebridge Road; tir garw a rhan o gwrs dŵr, i'r de ac i'r gorllewin o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa; glaswelltir a rhan o lwybr troed dienw, i'r de-ddwyrain o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Stonebridge Road; tir garw rhan o gwrs dŵr, i'r gorllewin o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, dir garw a chwrs dŵr, i'r de o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir i'r gogledd o Stonebridge Road, a chwrs dŵr, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar dir garw, i'r de o Ystad Ddiwydiannol Rasa at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal gweithiau draenio gan gynnwys penwal; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar gwrs dŵr, i'r de-ddwyrain o Uned 36 Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Stonebridge Road at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal cwlfer. (Plotiau 3/4, 3/4a, 3/4b, 3/4c, 3/4d, 3/4e, 3/4f, 3/4g, 3/4h, 3/4i, 3/4j, 3/4k, 3/4l, 3/4m, 3/4n, 3/4p, 3/4q, 3/4r, 3/4s, 3/4t, 3/4u, 3/4v, 3/4w a 3/4x).

Ni ddefnyddiwyd plot 3/5.

Glaswelltir ar hyd ffin ddeheuol ac yng nghornel ddwyreiniol Uned 41 Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plotiau 3/6 a 3/6a).

Tir garw, i'r de o Ffatri flaenorol y Tech Board. (Plotiau 3/7 a 3/7a).

Tir garw, gan gynnwys llwybrau troed anawdurdodedig a choetir, i'r de-ddwyrain o Ffatri flaenorol y Tech Board, Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Maple Way a Briar Close, Rasa; glaswelltir a chwrs dŵr dienw, i'r dwyrain o Ffatri flaenorol y Tech Board; coetir, glaswelltir a thrac nas marciwyd, i'r dwyrain o Ffatri flaenorol y Tech Board; glaswelltir a chwrs dŵr dienw, gan gynnwys coredau a llwybr troed anawdurdodedig, i'r de-ddwyrain o Gronfa Ddŵr Carno ac i'r gogledd-orllewin o Carno Houses; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar goetir, glaswelltir, trac anawdurdodedig a chwrs dŵr i'r dwyrain o Ffatri flaenorol y Tech Board, Ystad Ddiwydiannol Rasa, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt. (Plotiau 4/2, 4/2a, 4/2b, 4/2c, 4/2d, 4/2e, 4/2f, 4/2g a 4/2h).

Glaswelltir a chwrs dŵr yng Nghwm Carno, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno ac i'r gogledd o Carno Houses; glaswelltir, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno ac i'r gogledd-orllewin o Carno Houses; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno a'i ffordd mynediad, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pwll gwanhau a draeniau cysylltiedig; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir a chwrs dŵr dienw, i'r dwyrain o ffatri flaenorol y Tech Board, Ystad Ddiwydiannol Rasa, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt. (Plotiau 4/3, 4/3a, 4/3b, 4/3c, 4/3d, 4/3e, 4/3f a 4/3h).

Glaswelltir a chwrs dŵr dienw, i'r dwyrain o Ffatri flaenorol y Bwrdd Technegol, Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plot 4/4).

Glaswelltir a draeniad tir i'r de o Gronfa Ddŵr Carno a'i ffordd fynediad; glaswelltir goleddfol serth i'r gogledd o Reservoir Road ac i'r dwyrain o Carno Houses; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno a'i ffordd fynediad, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pwll gwanhau a draeniau cysylltiedig. (Plotiau 4/5a, 4/5c, 4/5u a 4/5v).

Rhan o'r ffordd fynediad sy'n arwain at Carno Houses, garej breifat, mynedfa risiog a glaswelltir goleddfol serth, rhan o'r eiddo a elwir Rhif 1 Carno Houses, Reservoir Road. (Plotiau 4/6, 4/6a, 4/6b, 4/6c, 4/6d, 4/6e, 4/6f, 4/6g a 4/6h).

Glaswelltir goleddfol serth, rhan o'r eiddo a elwir Rhif 2 Carno Houses, Reservoir Road. (Plot 4/7).

YNG NGHYMUNEDAU RASA A CHENDL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Glaswelltir goleddfol serth a chreigle, rhan o wely a glannau Afon Ebwy, draeniad tir a ffordd fynediad breifat sy'n arwain at Gronfa Ddŵr Carno, i'r gogledd o Reservoir Road ac i'r de o Gronfa Ddŵr Carno, gan gynnwys mynedfa i fwynglawdd tanddaearol; glaswelltir, peilon 132kV uwchben; glaswelltir goleddfol serth a gwely a glannau Afon Ebwy i'r gogledd-orllewin o Reservoir Road ac i'r dwyrain o Carno Houses; hanner lled Reservoir Road i'r de o Gronfa Ddŵr Carno; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar ffordd fynediad at gronfa ddŵr, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno i ddarparu mynediad at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal pwll gwanhau a draeniau cysylltiedig; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir goleddfol serth, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno

at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal. (Plotiau 4/5, 4/5b, 4/5d, 4/5e, 4/5t, 4/5w a 4/5y)

YNG NGHYMUNED CENDL YM MWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A465 yn y Garn Lydan a nodweddion priffordd cysylltiedig eraill; hanner lled Llangynidr Road, o flaen yr eiddo a elwir Bryntirion, Llangynidr Road. (Plotiau 4/1, 4/1a a 4/1b).

Glaswelltir garw a chreigle goleddfol serth, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r gorllewin o Llangynidr Road ac i'r de-ddwyrain o Gronfa Ddŵr Carno; hanner lled priffordd unffrwd a throetffordd, yn Llangynidr Road (B4560), Cendl; glaswelltir garw, yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r gorllewin o Llangynidr Road ac i'r de-ddwyrain o Gronfa Ddŵr Carno; glaswelltir garw a chreigle goleddfol serth i'r gorllewin o Llangynidr Road ac i'r de o Gronfa Ddŵr Carno; hanner lledau Reservoir Road i'r de o Gronfa Ddŵr Carno; glaswelltir garw, i'r de-orllewin o gronfa ddŵr Blaen-y-cwm ac i'r de o bwll dŵr dienw ac i'r dwyrain o Llangynidr Road; tir garw a thrac dienw i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de-orllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; tir garw a thrac dienw, rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gogledd o'r danffordd amaethyddol bresennol; tir garw a thrac dienw, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gogledd o'r danffordd bresennol; glaswelltir garw i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465, i'r gogledd o'r danffordd amaethyddol bresennol ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir gyferbyn â'r grid gwartheg, i'r gogledd o Llangynidr Road ac i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Garn-wen; glaswelltir i'r gorllewin o Llangynidr Road a chyferbyn â'r eiddo a elwir Garn-wen, Tyn-y-Rhyn, Waun Helygen, Lynwood a Moorland View, Llangynidr Road; rhan o'r llwybr troed 332/16/1, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r de o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r gorllewin o'r Cilffyrdd Cyfyngedig 332/17/1 a 332/18/1; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir garw, i'r de-orllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm i'r de o bwll dŵr dienw ac i'r dwyrain o Llangynidr Road at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt. (Plotiau 4/3j, 4/3k, 4/3l, 4/3m, 4/3n, 4/3p, 4/3q, 4/3r, 4/3s, 4/3t, 4/3u, 4/3v, 4/3w, 4/3y, 4/3z, 4/3aa, 4/3ab, 4/3ac, 4/3ad, 4/3ae a 4/3af).

Rhan o'r ffordd fynediad at Gronfa Ddŵr Carno a glaswelltir garw, i'r de o'r gonfa ddŵr; glaswelltir garw a rhan o draciau dienw, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir garw i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de-orllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir garw gan gynnwys draeniad tir, traciau nas marciwyd a phedwar cebl 132kV uwchben, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir garw, draeniad tir a ffrwd, i'r gorllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm ac i'r dwyrain o Llangynidr Road; tir garw a thrac dienw i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir garw i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 a thanffordd amaethyddol bresennol ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; hanner lled Reservoir Road i'r de o Gronfa Ddŵr Carno; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar ffordd fynediad at gronfa ddŵr a glaswelltir goleddfol serth, i'r de o Gronfa Ddŵr Carno at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt. (Plotiau 4/5f, 4/5g, 4/5h, 4/5i, 4/5j, 4/5l, 4/5m, 4/5n, 4/5p, 4/5q, 4/5s a 4/5x).

Glaswelltir garw, stablau a chreigle goleddfol serth, i'r dwyrain o Reservoir Road a'r ffordd fynediad sy'n arwain at Gronfa Ddŵr Carno; glaswelltir garw a chreigle goleddfol serth, rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r dwyrain o Reservoir Road ac i'r de o Gronfa Ddŵr Carno; glaswelltir garw a chreigle goleddfol serth, i'r dwyrain o Reservoir Road ac i'r de o Gronfa Ddŵr Carno. (Plotiau 4/8, 4/8a, 4/8b a 4/8c).

Glaswelltir garw, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r dwyrain o Llangynidr Road ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Garn-wen; glaswelltir garw a chwrs dŵr, i'r dwyrain o Llangynidr Road ac i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir Garn-wen; glaswelltir garw, i'r gorllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm ac i'r dwyrain o Llangynidr Road; glaswelltir garw i'r de-ddwyrain o Llangynidr Road ac i'r gogledd o Garlydar Farm; hanner lled priffordd unffrwd, ymyl a throetffordd, a elwir Llangynidr Road (B4560), Cendl; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir garw i'r dwyrain o Llangynidr Road ac i'r gogledd o Garlydar Farm, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir garw, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort

Common BCL017, i'r dwyrain o Llangynidr Road ac i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir Garn-wen at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt; yr hawl i fynd i mewn, gan gynnwys mynediad i gerbydau, ar laswelltir, i'r de-orllewin o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm ac i'r de o bwll dŵr dienw, at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens i atal bywyd gwyllt. (Plotiau 4/9, 4/9a, 4/9b, 4/9c, 4/9d, 4/9e, 4/9f, 4/9g, 4/9h a 4/9i).

Rhan o'r ffordd fynediad sy'n arwain at Garn-wen, troetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus a elwir Llangynidr Road (B4560); rhan o'r ardd o flaen yr eiddo a elwir Garn-wen, Llangynidr Road. (Plotiau 4/10 a 4/10a).

Rhan o'r droetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus Llangynidr Road (B4560), i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Tyn-y-Rhyn. (Plot 4/11).

Rhan o'r droetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus Llangynidr Road (B4560), i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Waun Helygen. (Plot 4/12).

Rhan o'r droetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus Llangynidr Road (B4560), i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Lynwood. (Plot 4/13).

Rhan o'r droetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus Llangynidr Road (B4560), i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Moorland View. (Plot 4/14).

Rhan o'r droetffordd a hanner lled y briffordd gyhoeddus Llangynidr Road (B4560), i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo a elwir Red Villa. (Plot 4/15).

Rhan o Gefnffordd bresennol yr A465 a nodweddion priffordd cysylltiedig eraill, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017. (Plot 5/1a).

Glaswelltir garw, rhan o danffordd amaethyddol a Chilffordd Gyfyngedig 332/8/1, draeniad tir a gweithfeydd mwynau tanddaearol segur, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de-ddwyrain o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir a rhan o danffordd amaethyddol bresennol a rhan o Gilffordd Gyfyngedig 332/8/1, y cyfan yn rhan o'r tir comin a elwir PT Mynydd Llangattock-Beaufort Common BCL017, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465; glaswelltir garw a draeniad tir, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de-ddwyrain o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; glaswelltir garw a thraciau dienw, i'r gogledd o Gefnffordd bresennol yr A465 ac i'r de o Gronfa Ddŵr Blaen-y-cwm; tir pori, rhan o danffordd

